Adroddiad Cyfarfod
09:06:21
Taith Gerdded

Daeth tymor 2020-21 i ben gyda rhai o'r aelodau yn mynd ar daith gerdded o amgylch yr ardal cyn ymuno a gweddill yr aelodau yng nghaffi Perthyn am de prynhawn. Treuliwyd orig ddifyr iawn yn sgwrsio a mwynhau'r te bendigedig.

Estynnodd Anita, y Llywydd, groeso cynnes i bawb gan nodi pa mor braf oedd cyfarfod wyneb yn wyneb wedi cyfnod hir o ymbellhau oherwydd Covid.

Diolchodd i'r aelodau am eu cefnogaeth i'r gangen trwy gydol y flwyddyn. Llongyfarchodd Rhianwen, wyres Anwylyd, ar ennill ysgoloriaeth Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, i wneud doethuriaeth y flwyddyn nesaf. Llongyfarchodd Lois, merch Rhian, ar ei dyrchafiad diweddar i swydd Therapydd Iaith a Lleferydd Arbennigol gyda Tîm Neuroddatblygiadol Gogledd Cymru.

Dymunodd benblwydd hapus i Glenys Griffiths a fydd yn dathlu 80 y mis yma ac anfonodd gofion cynnes at Elizabeth Evans a pawb sy'n gwella o salwch neu wedi cael profedigaeth.

Diolchodd i Liz Watkin am ddosbarthu'r 'Wawr' ac i Eleri am ofalu bod ein haelodau o Gaerhun yn ei dderbyn hefyd, i Jen am roi gwybodaeth a lluniau'r gangen ar y cyfryngau cymdeithasol ac i Gwenan am drefnu cysylltiadau 'Zoom'. Diolchodd i Eleri, y trysorydd, ac i Rhian , yr ysgifennydd, am eu gwaith trwy gydol y flwyddyn. Diolchodd hefyd i Elen a Nia, Caffi Perthyn, am eu croeso a'u tê prynhawn ardderchog.

Dymunodd yn dda i Anne Elis, Liz Watkin a Gwyneth Jones (swyddogion) ac aelodau'r pwyllgor y flwyddyn nesaf.

Diolchodd Anne i Anita am arwain y gangen trwy gyfnod anodd a heriol ac i aelodau'r pwyllgor am gytuno i barhau y flwyddyn nesaf. Wrth gloi fe nododd ei gobaith am gael cyfarfod eto ym mis Medi, os bydd canllawiau Covid yn caniatau.

Ennillwyd gwobrau raffl gan Mary Evans, Gwenan, Mair Williams a Beti.

Edrychwn ymlaen i weld pawb ym Medi.